# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## HAF 2019

## SAFON UWCH
## CYMRAEG: IAITH GYNTAF - UNED 5
## 1000N50-1

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

1. **Rhyddiaith yr Oesoedd Canol**

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun i 1(a) a'r un modd i 1 (b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

(a) Disgwylir i'r ymgeiswyr allu darllen a deall orgraff a gramadeg y testun gwreiddiol er mwyn ateb yr adran hon.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu deall ystyr, cynnwys a rhediad storïol y dyfyniad a chyflwyno dehongliad trefnus, cryno ohono megis yr hyn a geir yn y golofn gyntaf.

Disgwylir i'r ymgeiswyr allu nodi eu bod wedi deall arwyddocâd y syniadau cyd-destunol sydd yn y dyfyniad, megis y rhai a geir yn y ddwy golofn olaf.



© WJEC CBAC Cyf.

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| Negeswyr yn mynd i ofyn i Branwen beth oedd yr olygfa a welodd y gofalwyr moch ar y môr. | Nodweddion goruwchnaturiol Bendigeidfran gan i'r gwylwyr moch ei gamgymryd am fynydd yn symud ar y môr. | Yr olygfa y cyfeiriant ati yw Bendigeidfran a'i filwyr yn dod draw i Iwerddon wedi i Branwen adael i'w brawd wybod am ei chosb drwy yrru drudwen gyda llythyr i Gaer Saint yn Arfon.<br><br>Y'*[p]oen a'm amharch'* y mae Branwen yn cyfeirio atynt yw'r gosb y perswadiwyd Matholwch i'w rhoi ar Branwen i ddial am weithred Efnysien wrth anffurfio ei geffylau yn Ynys y Cedyrn. Gan fod ceffylau'n cael eu hystyried yn symbol o bŵer tynnir ei statws hi fel brenhines oddi arni drwy ei gorfodi i bobi yn y llys ac mae bonclust waedlyd y cigydd yn adlais o'r difrod a wnaed i'r ceffylau. |
| | Mae arwyddocâd i'r modd y mae'r negeswyr yn cyfarch Branwen yma. Cydnabyddant ei statws gyda'r teitl, 'Arglwyddes', ond nid ydynt yn ei chyfarch yn y ffordd y dylai rhai isradd gyfarch brenhines, nac yn aros am ei chyfarchiad hi cyn dweud eu neges. Nid ydynt yn dangos y parch dyledus iddi fel brenhines, ac o ganlyniad maent yn ei sarhau. Dengys hyn ei sefyllfa israddol yn Iwerddon.<br><br>Mae'n arwyddocaol hefyd mai'r negeswyr sy'n mynd i ofyn i Branwen ac nid Matholwch ei hun. Mae'n gofyn i eraill wneud ei waith budr drosto, ac mae'n gwrthod cymryd cyfrifoldeb. | Mae hyn yn cyferbynnu â'r ffordd mae'r negeswyr yn cyfarch Matholwch yn flaenorol – '*Arglwyd . . . henpych guell'* a disgwyl am ei gyfarchiad ef, '*Duw a rodo da ywch'* a chaniatâd i fynegi eu neges '*a chwedleu genhwch?'* |



© WJEC CBAC Cyf.

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| Branwen yn ymateb gan nodi iddi wybod beth yw'r olygfa y maent yn cyfeirio ati er nad yw bellach yn arglwyddes. Eglura mai'r coed yw mastiau a hwylbrenni llongau milwyr Ynys y Cedyrn, mai'r mynydd yw Bendigeidfran, y grib yw ei drwyn a'r ddau lyn yw ei ddau lygad. Eglura mor flin yw. | Mae'n eironig mai Branwen, sydd wedi'i hesgymuno a'i chywilyddio drwy ei gyrru i bobi yng nghegin y llys, yw'r un sy'n gallu ateb eu cwestiynau. Mae ateb Branwen yn cyfleu ei hyder tawel wrth iddi dynnu sylw at y ffaith nad yw bellach yn cael ei thrin fel brenhines. Mae'n ffigwr goddefol yn y chwedl, ond eto, yma caiff ei darlunio fel cymeriad urddasol, gwybodus. Fel y dywed Saunders Lewis – '*A phan ddaw holi arni am a welwyd ar y môr, 'cyn ni bwyf arglwyddes,' ebr hi, ond mae y balchder llariaidd a'r awdurdod yn ei hatebion yn troi'r gegin yn llys barn Iwerddon.'*<br><br>Mae Branwen yma yn pwysleisio'r cwlwm teuluol â Bendigeidfran drwy nodi '*uym brawt'.* Mae'n thema bwysig yn y chwedl. | Gwelir dylanwad a doethineb Branwen ymhellach wrth iddi annog Bendigeidfran i dderbyn telerau heddwch y Gwyddelod er mwyn ceisio osgoi ailgodi'r gynnen rhyngddynt. '*A daeth y negeswyr â'r genadwri honno gyda hwy at Fendigeidfran; a chymerodd yntau gyngor. Dyma a benderfynodd yn y cyngor, derbyn hynny; a thrwy gyngor Branwen y bu hynny oll, a rhag dinistrio'r wlad y gwnaed hynny ganddi hi.'*<br><br>Dyma'r rheswm nad yw Bendigedfran yn cosbi Efnysien am ei weithred anfad yn difetha'r ceffylau. Gan *mai 'brawt un uam a mi a wnaeth hynny*' nid oedd yn *'hawd genhyf i na'e lad na'e diuetha*'. Mae Matholwch hefyd yn pwysleisio'r cysylltiadau teuluol wrth iddo geisio cymodi â Bendigeifran a gwŷr Ynys y Cedyrn yn ddiweddarach yn y chwedl. |
| | Dengys y sefyllfa yma pa mor bell y mae sefyllfa priodas Branwen a Matholwch wedi crwydro oddi wrth y ddelfryd. Pwrpas y briodas oedd uno dwy wlad *'ual y bydynt gadarnach'.* Dyma nod Matholwch wrth iddo hwylio o Iwerddon i Ynys y Cedyrn ar gychwyn y chwedl. Mae thema cynnen wedi codi ei phen droeon i chwalu'r ddelfryd honno. | |
| | Pwysleisia Branwen faint goruwchnaturiol Bendigeidfran drwy nodi iddo gerdded drwy'r môr ac nad oedd llong oedd yn ddigon mawr i'w gynnwys. Olion y duwiau Celtaidd sydd yn nodweddion hynod Bendigeidfran – *'Olion mytholeg y Brythoniaid sydd yma, eu cred am y Byd Arall – Annwfn – ac am ymwneud y duwiau â dynion; cymeriadau o bantheon crefydd Celtaidd Prydain yw arwyr y Pedair Cainc.'* Yr Athro Brynley F Roberts.<br><br>Mae'r awdur hefyd o bosibl yn pwysleisio nad oedd y môr rhwng Cymru ac Iwerddon mor ddwfn bryd hynny ond iddo ymledu wedyn a gorlifo'r tir. Mae sawl chwedl yn y Gymraeg sy'n cynnwys cyfeiriad at y môr yn gorlifo, a'r enwocaf yw Cantre'r Gwaelod. | Mae thema hudoliaeth neu'r goruwchnaturiol yn cael ei phwysleisio ymhellach gydag eiddo hudol Bendigedfran, fel y Pair Dadeni, a'r ffaith iddo oroesi ar ôl torri ei ben a pharhau i ddarparu cwmni i'w wŷr ar y daith hudolus i Ynys y Cedyrn lle nad oeddent yn heneiddio. Mae hyd yn oed yn amddiffyn yr ynys rhag ymosodiad o'r cyfandir wedi i'r pen gael ei gladdu yn wynebu Ffrainc.<br><br>Dyfais y gwyliwr |



© WJEC CBAC Cyf.

| Digwyddiadau | Arwyddocâd | Cyd-destun |
|---|---|---|
| Mae Matholwch yn casglu ei filwyr ac yn ymgynghori. Dilyna gyngor ei wŷr i gilio dros afon Llinon a thorri'r bont gan ymddiried na fydd gwŷr Ynys y Cedyrn yn gallu eu cyrraedd gan fod meini sugn yn tynnu'r holl longau i'r gwaelod wedi i'r Gwyddelod dorri'r bont. | Mae'r ffaith bod Matholwch yn gweithredu yn ôl cyngor ei wŷr yn dangos ei wendid fel brenin.<br><br>Mae'n bosibl mai at afon Shannon y cyfeirir yma ac mai nodi'r sain 'sh' gyda'r llythyren debycaf iddi yr oedd y Cymry drwy ddefnyddio 'll'. Fodd bynnag lleolir yr afon hon yn ne orllewin Iwerddon ac ni fyddai'n gwneud synnwyr yn ddaearyddol. Dadleua rhai mai afon Liffey, sy'n llifo drwy Ddulyn fyddai'n gwneud synnwyr, gan mai ar yr ochr ddwyreiniol y byddai gwŷr Ynys y Cedyrn yn glanio.<br><br>Mae gweithred Matholwch yma yn dangos llwfrdra yn ei gymeriad gan nad yw'n fodlon wynebu canlyniad ei weithredoedd. | Gwelir yr un gwendid wrth iddo ddilyn cyngor ei wŷr ar wahanol adegau yn ystod y chwedl e.e. i adael Ynys y Cedyrn wedi i Efnysien anffurfio'r ceffylau, i adeiladu'r tŷ haearn a llosgi Llasar Llaes Gyfnewid a'i deulu, i ddial ar Branwen, i rwystro llongau rhag dychwelyd i Ynys y Cedyrn wedi sarhau Branwen, i adeiladu tŷ er mwyn anrhydeddu Bendigeidfran. |
| Daw Bendigeidfran a'i filwyr i'r tir ac wedi iddynt sylweddoli na allant groesi'r afon at y Gwyddelod gofynna'r milwyr am gyngor Bendigeidfran. Ei ateb yw mai cyfrifoldeb y pennaeth yw bod yn bont. Daeth yr ymadrodd hwnnw yn ddihareb wedyn. | Gwelir gwrthgyferbyniad yn y sefyllfa â Bendigeidfran. Ef sy'n rhoi cyngor i'w wŷr ac ef sy'n gweithredu drwy orwedd dros yr afon a gadael i'w filwyr gerdded drosto.<br><br>Mae tarddiad y ddihareb yn cael ei hegluro drwy'r stori / chwedl onomastig yma. Mae'n nodi bod pennaeth llwyddiannus yn gweithredu fel pont i'w ddilynwyr drwy hwyluso pethau iddynt oresgyn unrhyw anhawster. Yma, mae Bendigedifran yn gweithredu fel pont yn llythrennol, ac yn dangos yr hyn a deimla awdur y chwedl am natur brenhiniaeth – mai cyfrifoldeb y pennaeth yw gweithredu er lles ei ddilynwyr.<br>*'Yn ffigurol, yr ergyd yw y dylai arweinydd bontio pob afon, sef bod yn gymorth i'w ddeiliaid i oresgyn pob rhwystr arall y dônt wyneb yn wyneb ag ef, a hynny* ***am*** *ei fod yn arweinydd, yn hytrach nag* ***er mwyn dod*** *yn arweinydd.*' - Rhiannon Ifans. *'Trwy gydol y chwedl, torri pontydd a wna Matholwch, yn ffigurol; ond ei hadeiladu a wna Bendigeidfran.'* – Yr Athro Sioned Davies. | Mae gofal Bendigeidfran am ei wŷr yn parhau wedi iddo gael ei anafu gyda'r waywffon wenwynig. Mae'n trefnu eu taith i gladdu ei ben ac mae'n parhau i amddiffyn ei genedl hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth.<br><br>Yr enghraifft arall o stori / chwedl onomastig yn y chwedl hon yw 'Talebolion', pan honnir i'r cwmwd yng ngogledd Môn gael ei enwi wedi i Matholwch dderbyn ebolion fel rhan o'r iawndal am weithred Efnysien wedi i'r ceffylau dof ddarfod. Ymgais gan y cyfarwydd i esbonio enw lle drwy lunio stori sy'n gysylltiedig â'r chwedl oedd. Credir mai'r ffurf wreiddiol oedd 'Tal y Bolion' – 'tal' am ben draw neu ddiwedd, a 'bolion' yn golygu bryniau neu gorsydd. |



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 1 (a)** **[15]**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12-15** | • arddangos gwybodaeth drylwyr am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• enghreifftio'n effeithiol wrth ateb |
| **10-11** | • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• enghreifftio addas a phwrpasol wrth ateb |
| **8-9** | • arddangos gwybodaeth fanwl am y testun ar adegau<br>• arddangos dealltwriaeth dda o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• enghreifftio addas wrth ateb |
| **5-7** | • arddangos peth gwybodaeth am y testun<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• cyfeirio at y testun |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth arwynebol am y testun<br>• cyfeirio at rai elfennau penodol o arwyddocâd cysyniadau cyd-destunol y dyfyniad<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• cyfeirio at y testun yn achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

Aralleirio darn yn unig yn y papur arholiad – dim mwy na 4 marc.
Aralleirio darn yn unig a chyfeirio at weddill y chwedl – dim mwy na 7 marc.

Tanlinellu – pwynt arwyddocaol
d – dyfynnu
d mewn cylch – dyfyniad neu gyfeiriad ysgolheigaidd
cd – cyd-destun



© WJEC CBAC Cyf.

(b) Dylai'r ymgeiswyr ddefnyddio'r dyfyniad yn sylfaen i'w hateb a chyfeirio at rannau perthnasol eraill o'r chwedl.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddyfynnu'n ddeallus er mwyn cefnogi gosodiad neu safbwynt am gymeriadau Bendigeidfran a Matholwch yn y chwedl.
Disgwylir iddynt gymharu nodweddion y ddau gymeriad gan nodi tebygrwydd a gwahaniaethau a'u henghreifftio.
Gwobrwyir ymgeiswyr sy'n gallu dangos eu bod nhw wedi deall dehongliadau ysgolheigion o'r chwedl.

Disgwylir i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi deall cysyniadau megis:

- Bendigeidfran a Matholwch yn ffigurau brenhinol a thrwy eu cyfosod tybia Yr Athro Sioned Davies fod neges benodol yma. 'Felly, trwy gyfrwng cymeriad Matholwch, a thrwy gyfosod â Bendigeidfran, mae'r awdur yn awgrymu rhywbeth ynglŷn â natur brenhiniaeth ac am yr holl gyfrifoldebau sy'n perthyn i'r swydd honno.'

- Yma pwysleisir agweddau goruwchnaturiol Bendigeidfran – cawr. Gall gerdded drwy'r môr o Ynys y Cedyrn i Iwerddon, gorwedd fel pont ar draws Afon Llinon, ond hefyd nid yw erioed wedi'i gynnwys mewn tŷ (gan i'r Gwyddelod adeiladu tŷ er anrhydedd iddo) nac mewn llong. Dadleuwyd bod yr elfen oruwchnaturiol hon yn deillio o olion mytholeg y Brythoniaid ac mai duw Celtaidd oedd Bendigeidfran yn wreiddiol.

- Meidrol yw Matholwch a gwelir llawer o wendidau dynol yn ei gymeriad. Eto, mae elfennau dynol yn Bendigeidfran hefyd, fel ei farwolaeth. Er gwaethaf gallu'r pen i oroesi am flynyddoedd lawer, caiff ei gladdu yn y Gwynfryn yn Llundain yn y diwedd.

- Bendigeidfran yn arweinydd cadarn. Yma gwelir ei wŷr yn gofyn am ei gyngor – '*Mae dy gynghor am bont?*' Mae ei athroniaeth yn amlwg yn ei ymadrodd a ddaeth yn ddihareb – '*A uo penn bit pont*.' Teimla mai'r arweinydd ddylai hwyluso'r ffordd i'w ddilynwyr. Gwelir ei gadernid wrth iddo ddod i Iwerddon i achub ei chwaer ac wrth iddo roi cyfarwyddiadau cadarn i'w ddilynwyr ar beth i'w wneud wedi torri ei ben.

- Mae Bendigeidfran yn gofyn am farn eraill, fel pan ymgynghora ynglŷn â rhoi Branwen i Fatholwch, ynglŷn â threfniadau gwarchod Ynys y Cedyrn tra ei fod yn Iwerddon ac ynglŷn â derbyn amodau heddwch. Ond derbyn cyngor a'i ystyried cyn gwneud penderfyniad y mae Bendigedfran, nid cael ei berswadio na'i ddylanwadu gan y cyngor hwnnw.

- Matholwch yn arweinydd gwan, hawdd dylanwadu arno. Yma, yn lle wynebu Bendigeidfran caiff ei ddylanwadu gan ei wŷr i ffoi – '*kilyaw drwy Linon . . . a gadu Linon y rot ac ef, a thorri y bont yssyd ar yr auon.*' Dilyn cyngor ei wŷr mae Matholwch yn hytrach na rhoi cyngor i'w wŷr, fel y gwna Bendigeidfran. Ceir enghreifftiau niferus yn ystod y chwedl e.e. ei wŷr sy'n ei berswadio bod y difrod a wnaeth Efnysien i'w geffylau'n fwriadol ac y dylai adael Ynys y Cedyrn, '*y urodyr maeth a'r gwyr nessaf gantaw*' sy'n ei berswadio i yrru Branwen i'r gegin fel cosb am sarhad Efnysien, ei wŷr sy'n ei gynghori ymhellach i atal neb rhag teithio i Gymru ac i garcharu ymwelwyr fel na ddaw neb i wybod am y gosb.

- Bendigeidfran yn cymryd cyfrifoldeb dros ei weithredoedd ef a'i deulu. Mae'n deg, ac yn wir yn hael, ei iawndal i Fatholwch wedi gweithred greulon Efnysien i'w geffylau. Mae'n rhoi plât aur iddo er mwyn pwysleisio bod Bendigeidfran yn ei ystyried cystal ag ef ei hun, a'r Pair Dadeni er mwyn adfer y sarhad ar ei allu i atgenhedlu. Mae'n gwneud penderfyniad i beidio â chosbi Efnysien ac mae'n gorfod derbyn y cyfrifoldeb eithaf am hynny drwy'r rhyfel rhwng Iwerddon ac Ynys y Cedyrn ac iddo yntau gael ei daro â gwaywffon wenwynig.



© WJEC CBAC Cyf.

- Osgoi cyfrifoldeb mae Matholwch. Yma, mae'n cilio a chuddio rhag Bendigeidfran fel nad yw'r gorfod wynebu'r cyfrifoldeb ynglŷn â'r ffordd mae wedi trin ei wraig a thrafod amodau heddwch. Ar gychwyn y dyfyniad mae wedi gyrru ei wŷr i holi Branwen beth yw'r olygfa ar y môr yn hytrach na wynebu ei wraig ei hun.

- Bendigeidfan yn amddiffynnydd ei deulu a'i bobl. Nid yw'n meddwl ddwywaith cyn casglu ei fyddin i amddiffyn Branwen yn Iwerddon. Wedi'r dyfyniad mae'n trefnu heddwch gyda'r Gwyddelod ac yn arbed bywyd ei filwyr. Wedi i Efnysien daflu Gwern i'r tân mae Bendigeidfran yn amddiffyn Branwen drwy ei chysgodi rhwng ei darian a'i ysgwydd wrth ymladd. Hyd yn oed ar ôl iddo gael ei glwyfo mae'n dal i amddiffyn ei deulu a'i wŷr wrth gynllunio dyfodol ei deyrnas a pharhau i amddiffyn Ynys y Cedyrn er bod ei ben wedi'i gladdu '*a'y wyneb ar Freinc ef.'*

- Gellid dadlau mai yma mae ei wendid hefyd. Oherwydd y cwlwm teuluol a'i awydd i amddiffyn Efnysien wedi ei weithred erchyll – *'brawt un uam a mi a wnaeth hynny, ac nad hawd genhyf i na'e lad na'e diuetha'* – y datblyga'r gynnen rhwng Iwerddon ac Ynys y Cedyrn sy'n arwain yn y pen draw at ddifodiant y ddwy wlad.

- Mae Matholwch hefyd yn pwysleisio ei gysylltiadau teuluol pan fo hynny o fantais iddo e.e. pan ddaw negeswyr Bendigeidfran ato i gynnig amodau heddwch ar ddiwedd y chwedl mae Matholwch yn awyddus i bwysleisio a manteisio ar y berthynas deuluol – '*Ar hynny . . . llyma gennadeu Matholwch yn dyuot attaw ef, ac yn kyuarch guell idaw, ac yn y annerch y gan Uatholwch y gyuathrachwr, ac yn menegi o'e uod ef na haedai arnaw ef namyn da.'* Ond nid yw'n ddidwyll, gan mai dyma'r brenin a fydd yn cuddio'i filwyr yn y sachau crwyn yn barod i ymosod ar ei '*gyuathrachwr*'. Nid yw chwaith yn fodlon amddiffyn ei wraig ac er ei bod yn gwbl ddieuog mae'n fodlon ei gweld yn cael ei chosbi drwy ei neilltuo i'r gegin a dioddef bonclust feunyddiol y cigydd.

- Bendigeidfran yn dangos doethineb yn ei benderfyniadau. Yma mae'n gwneud y dewis doeth o weithredu fel pont i'w filwyr. Y lle amlycaf y gwelir cyferbyniad yn noethineb ymateb y ddau frenin i sefyllfa benodol yw eu hymateb i Llasar Llaes Gyfnewid a Chymidei Cymeinfoll. Mae Matholwch yn methu eu rheoli nes gorfod plygu i gynnig ei wŷr i adeiladu tŷ haearn a cheisio eu llosgi nhw a'u teulu. Wedi iddynt ddianc i Ynys y Cedyrn mae Bendigeidfran yn ddigon doeth i ddefnyddio'u cryfderau ac yn rhannu'r teulu er mwyn cryfhau'r deyrnas - '*eu rannu ym pob lle yn y kyuoeth, ac y maent yn lluossauc, ac yn dyrchauael ym pob lle, ac yn cadarnhau y uann y bythont, o wyr ac arueu goreu a welas neb*.'

- Gwelir Bendigeidfran fel brenin llawer doethach, cryfach a thecach na Matholwch. Roedd bwriad Matholwch ar y cychwyn i uno'r ddwy deyrnas *'ual y bydynt gadarnach'* yn anrhydeddus, ond nid oedd y gallu ganddo i wireddu'r nod.

- Bendigeidfran yw'r brenin delfrydol. Cyfeiria Yr Athro Sioned Davies at y ffordd yr oedd Gramadegau'r Penceirddiaid yn nodi sut y dylid moli brenin:
  *'Arglwydd a folir o feddiant, a gallu, a milwriaeth, a gwrhydri, a chadernid, a balchder, ac addfwynder, a doethineb, a chymhendod, a haelioni, a gwarder, a hygarwch wrth ei wŷr a'i gyfeillion, a thegwch pryd, a thelediwrwydd corff, a mawrfrydwch meddwl, a mawrhydri gweithredoedd, a phethau eraill addfwyn anrhydeddus.'*
  Bendigeidfran sy'n cyflawni'r gofynion yma. Methu mae Matholwch.



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 1 (b)** **[15]**

| | AA2 – Ymateb i destun |
|---|---|
| **12-15** | • dadansoddi cymeriadau/themâu yn ddeallus, yn glir a diamwys a dangos eu harwyddocâd<br>• crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio'n effeithiol |
| **10-11** | • dadansoddi cymeriadau/themâu yn eithaf deallus a dangos eu harwyddocâd<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas a phwrpasol |
| **8-9** | • arddangos dealltwriaeth dda o'r cymeriadau/themâu<br>• crynhoi'r ffeithiau perthnasol yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio addas |
| **5-7** | • arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cymeriadau/themâu<br>• crynhoi rhai ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau/enghreifftio |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth am gymeriadau/themâu<br>• cyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• rhesymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu/enghreifftio'n achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

Tanlinellu – nodwedd
d – dyfynnu
d mewn cylch – dyfyniad neu gyfeiriad ysgolheigaidd
✓ - enghreifftio nodwedd
c - cymharu



© WJEC CBAC Cyf.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol i 1 (a) ac 1 (b). **[15]**

| | **AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig** |
|---|---|
| **12-15** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| **10-11** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| **8-9** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **5-7** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| **3-4** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig. |

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymgeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

**<u>Asesiad Synoptig</u>**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 1 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: e.e. dadansoddi cymeriadaeth / themâu a defnyddio iaith ysgrifenedig. Disgwylir iddynt hefyd wneud cysylltiadau rhwng y testun gosod yn y gyfrol *Gwerthfawrogi'r Chwedlau* neu'r testun sydd yn yr adnodd *Branwen Ferch* Llŷr ar wefan adnoddau CBAC adnoddau.cbac.co.uk a diweddariad o'r chwedl gyfan. **[45]**



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 2**

**Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

Mae 45 marc i'r cwestiwn cyfan. Rhoddir 15 marc am AA2 – Ymateb i destun i 2 (a) a'r un modd i 2 (b). Rhoddir 15 marc am AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig ar draws y ddau isgwestiwn.

(a) Disgwylir i ymgeiswyr drafod cefndir y gerdd yng nghyd-destun y traddodiad barddol arwrol. Dylent berthnasu'r cefndir i'r dyfyniad dan sylw. Os digwydd iddynt sôn am Daliesin yn hytrach nag Aneirin rhaid i'r ffeithiau fod yn berthnasol i Aneirin cyn y gallant ennill marciau. Rhaid perthnasu'r cefndir i'r gerdd.

Disgwylir i'r ymgeiswyr ddeall y cefndir arwrol a chynnwys elfennau megis y canlynol yn eu hatebion:

- Y Gododdin yn gerdd o tua 100 o awdlau a phedair 'gorchan' a briodolir i Aneirin, bardd o'r 6ed ganrif – anghytuno ymhlith ysgolheigion ai Aneirin a'i cyfansoddodd. Syr Ifor Williams yn dadlau y gallasai'r Gododdin, yn ei hanfod o leiaf, fod yn waith Aneirin o'r 6ed ganrif.
- Mae'r cnewyllyn gwreiddiol wedi ei newid dros y canrifoedd – annhebygol mai gwaith un bardd yw'r Gododdin.
- Cyfres hir o farwnadau ydyw i lwyth y Gododdin.
- Cofnodwyd enw Aneirin yn yr Historia Brittonum' (829-830)

- Perthyn i'r Hen Ogledd sef ardal de'r Alban a gogledd Lloegr erbyn heddiw. Prif deyrnasoedd Brythonig yr Hen Ogledd oedd Gododdin, Rheged, Ystrad Clud ac Elfed. Roeddent yn cael eu bygwth gan deyrnasoedd yr Eingl yn y dwyrain, yn arbennig Deifr (Deira) a Brynaich (Bernicia).
- Gododdin yw'r ffurf Gymraeg ar enw hen lwyth Brythonig y Votadini.
- Gododdin yw'r enw ar y tir, sef ardal o Afon Forth (yn yr Alban heddiw) at ardal Wear (yn swydd Durham, Lloegr heddiw), ac ar y llwyth a ddaeth i ben yn ôl hen gronicl o Iwerddon wrth i'r Saeson gipio Din Eidyn yn 638.

- Hyfforddwyd y milwyr am flwyddyn yn Eidyn (Caeredin) cyn mynd ar gyrch i Gatraeth. Roedd aelodau'r osgordd yn byw ac yn cael eu cynnal gan eu harglwydd – dyletswydd y pennaeth oedd rhoi cynhaliaeth i'w osgordd am gyfnod cyn y frwydr. Y term yng nghyfreithiau Hywel Dda am osgordd fel hyn yw 'teulu'.
- Mae'r cysyniad talu medd yn bwysig – rhan y pennaeth oedd darparu'r medd a rhan yr osgordd oedd bod yn barod i roi eu bywydau yn y frwydr yn dâl amdano. Mynyddog Mwynfawr oedd arweinydd llwyth y Gododdin, er bod Glen George yn dweud yn ei gyfrol 'Golwg Newydd ar yr Hen Ogledd' – '*Yn ôl traddodiad, bardd llys Mynyddog Mwynfawr o Ddin Eidyn oedd Aneirin, ond bellach credir mai cyfeiriad at yr ardal yw'r disgrifiad nid enw brenin.'*
- Fel bardd teulu, roedd Aneirin yn byw gyda'r milwyr ac yn eu hadnabod yn bersonol. Ei swyddogaeth fel bardd teulu oedd cofnodi'r brwydrau a chadw'r cof am y milwyr yn fyw – '*Beirdd byd barnant ŵr o galon.'*
- Y nod oedd cipio Catraeth (Catterick – lle mae canolfan filwrol enwog heddiw). Yn ôl rhai damcaniaethau, fel un Syr Ifor Williams, roedd yn safle pwysig yn strategaeth ffyrdd yr Hen Ogledd. Un rheswm oedd bod rhyd i groesi afon Swale yma, lle y cyfeirir at fan marwolaeth Buddfan, o bosibl – *'A chyn edewid yn rhydon'* gyda'r dŵr yn taro'i gorff – *'Ac o du gwasgar gwaneg tu bron'*. Fodd bynnag, datblygodd y darlun o'r arwr yn ymladd yn y rhyd yn gonfensiwn mewn barddoniaeth arwrol.



© WJEC CBAC Cyf.

- Ansicrwydd ynglŷn â maint y fyddin – 3,000? 300? Kenneth Jackson yn awgrymu mai cyfeirio at y prif filwyr yn unig y byddai Aneirin, y rhai oedd yn arwain eu milwyr eu hunain – '*Diebyrth ei gerth ei gyngyr'*.
- Yn ôl un traddodiad dim ond 3 o'r osgordd a ddychwelodd ynghyd â'r bardd a oedd wedi bod yn llygad-dyst. Yn ôl traddodiad arall dim ond un a ddychwelodd a'r bardd oedd hwnnw.
- Ceir rhai awdlau yn moli unigolion neu grwpiau o arwyr neu'r osgordd gyfan. Gellir ystyried yr awdlau fel penillion mewn cyfres, pob un yn rhoi i ni olwg ychydig yn wahanol ar y thema ganolog. Mae Aneirin yn moli aelodau'r osgordd am eu parodrwydd i fynd i ymladd dros eu harglwydd, ac i frwydro hyd at angau fel y gwnaeth '*Buddfan fab Bleiddfan ddihafarch.*'

- Mae'r Gododdin yn fath arbennig o arwrgerdd yn ôl yr ysgolhaig Joseph Loth. Arwriaeth sy'n cael ei gofnodi a'i glodfori. Caiff hyn ei bwysleisio gyda llinell gyntaf yr awdl – '*arwr dwy ysgwydd'*.
- Dywed Glen George – *'Nid galaru am golledion Catraeth y mae Aneirin yn y Gododdin ond canmol gwrhydri'r glewion i gynulleidfa oedd yn edmygu aberth.'*
- Pwysleisir effaith yr arwr mewn brwydr. Roedd yng nghanol y brwydro, yn swnllyd, yn difa, yn effeithiol - '*Bu trydar yn aerfre, bu tân,*
  *Bu ehud ei waywawr, bu huan.'*
  ac yn ddewr – *'Ydoedd wryd yn ei arch.'*
- Drwy dderbyn medd Mynyddog Mwynfawr tyngodd lw o ffyddlondeb hyd at angau, a dyna a ddaeth i'w ran '*yn rhydon – gan wlith.'*
- Topoi cyffredin yn y canu arwrol yw'r brain yn pigo cyrff yr arwr. Gwelir hynny yma – *'Bu bwyd brain , bu budd i frân'*, sy'n cael ei adleisio ymhellach yn ei enw – '*Buddfan'.* Cred yr Athro Peredur Lynch bod '*blas creadigaeth lenyddol'* ar yr enw hwn. Elfen gyntaf Buddfan yw'r *'budd'* sy'n golygu cyfoeth ac elfen gyntaf Bleiddfan yr *'blaidd'* sy'n gyfystyr â ffyrnigrwydd. Dyma grisialu'r ddwy elfen angenrheidiol i uchelwr y cyfnod – cyfoeth neu haelioni a ffyrnigrwydd neu ddewrder.
- Gwelir y lladd yng nghanol y canu – '*bwyd brain'* ond bywyd arwrol sy'n cael ei foli – '*ŵr o galon'*. Mae'r gwthgyferbyniad sy'n ganolog i'r canu – *'Ac wedi elwch, tawelwch fu'* yma hefyd: *'A chyn ei olo o dan Eleirch – Fre*
  *Ydoedd wryd yn ei arch.'*
  Yr ymdrech, yr urddas a'r anrhydedd sy'n bwysig yma – gwell angau na chywilydd.
- Un elfen o'r canu arwrol yw anfarwoldeb yr arwr a'r cof am ei ddewrder – *'Beirdd byd barnant ŵr o galon*.'

- Cadwyd y gerdd yn y llawysgrif, Llyfr Aneirin sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.
- Llawysgrif femrwn 38 tudalen o ail hanner y 13 ganrif.
- Mae'r gerdd mewn Cymraeg Canol a gopïwyd o Hen Gymraeg (dau fersiwn mewn dwy law wahanol - llaw A a llaw B).
- Mae Syr Ifor Williams a John T Koch yn awgrymu mai cyfuniad o wahanol awdlau sydd yn yr awdl hon.


© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 2 (a)** **[15]**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12-15** | • crynhoi ffeithiau cymhleth a pherthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n strwythuredig<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn a threiddgar o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| **10-11** | • crynhoi ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol, eu cymhwyso a'u cyflwyno'n gydlynol<br>• arddangos dealltwriaeth sicr o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| **8-9** | • crynhoi'r ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd yn effeithiol a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth dda o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas |
| **5-7** | • crynhoi rhai ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd a'r gerdd a'u cyflwyno'n gywir<br>• arddangos dealltwriaeth foddhaol o'r cysyniadau<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau |
| **3-4** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y bardd a'r gerdd a chyflwyno rhai ffeithiau perthnasol<br>• ymresymu a chyfeirio at rai elfennau penodol yn y testun<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu'n achlysurol |
| **0-2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

d – dyfynnu
d mewn cylch – dyfyniad neu gyfeiriad ysgolheigaidd
✓ - gwybodaeth arwyddocaol



© WJEC CBAC Cyf.

(b) **Arddull y bardd** **[15]**

Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn:

- cynllunio atebion trefnus a chydlynol
- defnyddio dyfyniadau o'r cywydd yn eu hatebion er mwyn dadansoddi, yn ystyrlon, sut y mae'r bardd yn trosglwyddo'i weledigaeth a thrwy wneud hynny werthfawrogi arddull y dyfyniad
- gallu cyfeirio at rai o'r nodweddion arddull a throadau ymadrodd hyn a **manylu ar eu heffeithiolrwydd:**

    - Cywydd llatai sy'n cyfuno dwy o brif themâu Dafydd ap Gwilym – serch a natur.
    - Y bardd yn canmol a chlodfori'r llatai, y ferch a'i chynefin drwy:

**Ddyfalu** – pentyrru delweddau, trosiadau a chyffelybiaethau i ganmol y llatai
- Pwysleisio gwynder – *'unlliw ag eiry neu wenlloer', 'lili môr', 'lleian'* - addas oherwydd lliw'r wylan ac fel modd o ganmol croen gwyn y ferch sy'n symbol o dras ac o burdeb
- Pwysleisio disgleirdeb – '*Llythr unwaith, lle'th ariannwyd'* – addas oherwydd mai danfon neges y mae fel llythyr, neu gall gyfeirio at siâp fel llythyren, ynghyd â'r ariannu sy'n dangos pa mor werthfawr a hardd yw'r wylan, fel y ferch; '*darn fal haul'* – ei disgleirdeb, '*dyrnfol heli'* – ei chryfder
- *'Dyfalu adar yw ei brif gampwaith ef.'* W. J. Gruffydd

**Ansoddeiriau –** i ganmol yr wylan, y ferch a'i chartref
- '*deg', 'dilwch,*' (sydd hefyd yn lleihad), '*fwyn,' 'coeth'*
- gradd eithaf yr ansoddair 'glân' – *'y ddyn lanaf o Gred'*
- ansoddair cyfansawdd – '*cyweirglod bun'*

**Cyfansoddeiriau –**
- *'cyweirglod bun,' 'Rhagorbryd rhy gyweirbropr'* – i ganmol y ferch
- *'esgudfalch edn bysgodfwyd,' 'fwynwas coeth'* – nodweddion allai gyfrannu at lwyddiant y llatai
- *'Merddin wenithfin'* – canmol y ferch yn anuniongyrchol

- Mae prydferthwch yr wylan yn symbol o harddwch y ferch

**Gormodiaith –**
- *'y ddyn lanaf o Gred'* – gormodiaith yn fodd o ddyrchafu'r ferch; '*dywaid na byddaf / . . . fyw onis caf*' i ddangos ei ymlyniad i'r ferch

**Cyfeiriadaeth –**
- *'Eigr o liw'* – cyfeiriadaeth at Eigr, merch Amlawdd Wledig a gwraig Gwrlois, Iarll Cernyw, cariad Uthr Pendragon a mam Arthur. Caiff ei disgrifio ym Mrut y Brenhinoedd fel y ferch harddaf yn Ynys Prydain
- *'Siprys'* – o bosibl yn gyfeiriad at dduwies Fenws a gysylltid ag Ynys Cyprus – addas gan mai duwies cariad oedd hi
- *'Merddin . . . na Thaliesin'* – wrth honni na chanmolodd yr un o'r beirdd enwog hyn erioed ferch dlysach rhoir mwy fyth o fri ar brydferthwch y ferch



© WJEC CBAC Cyf.

- Caiff teimladau'r bardd o gariad tuag at y ferch a'i awydd i'w neges gael effaith arni eu cyfleu drwy:

  **Gyfarch y llatai –** awgrymir taerineb y bardd a'i awydd i'r llatai lwyddo.
  - **Rhagenwau** – *'dy degwch di', 'lle'th ariannwyd'*.
  - **Berfau gorchmynnol** – *'dywaid', 'cyrch,' 'beiddia.'*

**Ebychiad** –
- *'Och wylan'* – awgryma alar y bardd wrth ystyried na fydd y ferch eisiau ei gydnabod, sefyllfa fydd yn arwain at ei farwolaeth – 'f*y nihenydd'*. Dangos dylanwad beirdd Ffrengig o bosibl. Tudur Dylan Jones yn awgrymu bod yr ebychiad yn awgrymu bod y bardd yn synhwyro na fydd yn llwyddo yn y pen draw.

Arddangos crefft y bardd drwy:
**Sŵn y gynghanedd –**
- e.e. *'fy nihenydd fydd y ferch'* – odl yn y gynghanedd sain yn pwysleisio'i drueni.
- '*Dilwch yw dy degwch di / Darn fal haul, dyrnfol heli'* – soniarus ac yn arafu'r llinellau i gyfleu urddas y llatai
- '*Yngo'r aud wrth yr angor / Lawlaw â mi, lili môr.*' – cytseiniaid meddal a'r llafariaid hir yn creu awyrgylch hamddenol ac ysgafnder gloyw yr wylan
- '*Siprys dyn giprys dan gopr, / Rhagorbryd rhy gyweirgropr.*' – Tynna'r Dr. Dylan Foster Evans sylw at gymhlethdod y gynghanedd hon gyda'r gyfatebiaeth gytseiniol gref, lle y dywed fod y bardd yn *'ceisio cyfleu harddwch a soffistigeiddrwydd anarferol y ferch hon, ac mae'r cynganeddu cywrain yn cyfrannu at y ddelwedd honno.'*

**Cymeriad llythrennol –** yn cysylltu'r cwpledi a'r trosiadau ac yn ychwanegu at gamp y bardd

**Symbol –** '*caer a chastell'* – Mae Dr. Dylan Foster Evans yn cynnig dehongliad symbolaidd posibl i'r gerdd. Er y gellid ei dehongli fel rhwystredigaeth y bardd wrth fethu meddiannu'r harddwch y mae'n ei ddeisyfu, gall y ffaith bod y ferch yn y *'castell'* gael ei ddehongli fel bod y ferch yn *'cynrychioli grym gwleidyddol a milwrol'* sydd y tu hwnt i'r bardd. Gellid dehongli hyn fel *'mynegiant o rwystredigaeth ehangach fod y cestyll Seisnig yn cadw'r Cymry rhag perchenogi grym gwleidyddol yn eu gwlad eu hunain.'*

**Awyrgylch gyffredinol** – ysgafnder, hyfrydwch. Y dyfalu'n adlewyrchu syndod a rhyfeddod nes creu argraff o fywiogrwydd a llawenydd



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn 2 (b)** **[15]**

| | **AA2 – Ymateb i destun** |
|---|---|
| **12 - 15** | • dadansoddi'n dreiddgar y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus a chydlynol<br>• defnyddio dyfyniadau'n effeithiol |
| **10 - 11** | • dadansoddi'n effeithiol y nodweddion a'r technegau arddull gan ddewis a dethol y perthnasol a chyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas a phwrpasol |
| **8 - 9** | • dadansoddi'n foddhaol y nodweddion a'r technegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas |
| **5 - 7** | • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull gan gyflwyno tystiolaeth<br>• datblygu ac ehangu ar y prif syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau |
| **3 - 4** | • trafod agweddau ar nodweddion a thechnegau arddull wrth geisio'u dadansoddi<br>• cyflwyno rhai syniadau<br>• dyfynnu'n achlysurol |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. |

Tanlinellu – nodwedd
d – dyfynnu
d mewn cylch – dyfyniad neu gyfeiriad ysgolheigaidd
✓ - dadansoddi



© WJEC CBAC Cyf.

Asesir iaith ysgrifenedig wrth ateb cwestiwn gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol ar gyfer 2 (a) a 2 (b). **[15]**

| | **AA3 – Defnyddio iaith ysgrifenedig** |
|---|---|
| **12 - 15** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn rymus, yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn fwriadus er mwyn cyfleu cymhlethdod ac amlochredd y pwnc<br>• arddangos cyfoeth o adnoddau iaith<br>• meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen |
| **10 - 11** | • mynegi syniadau a dadleuon cymhleth yn glir a chroyw<br>• saernïo gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu cymhlethdod y pwnc<br>• arddangos adnoddau iaith da<br>• arddangos gafael sicr a chywir ar ramadeg a chystrawen |
| **8 - 9** | • mynegi syniadau a dadleuon lled gymhleth yn glir<br>• cynllunio'r gwaith yn ofalus er mwyn cyfleu gwahanol agweddau ar y pwnc<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **5 - 7** | • defnyddio iaith yn briodol i fynegi syniadau a dadleuon<br>• dangos ymwybyddiaeth o drefn a dilyniant wrth gyflwyno gwaith<br>• arddangos peth amrywiaeth o adnoddau iaith<br>• arddangos gafael foddhaol ar ramadeg a chystrawen |
| **3 - 4** | • defnyddio iaith i fynegi syniadau a dadleuon uniongyrchol yn glir ac effeithiol<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o drefn wrth gyflwyno gwaith<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas<br>• arddangos gafael resymol ar ramadeg a chystrawen |
| **0 - 2** | • Mae'r ymgeiswyr hyn yn llwyddo i ddangos rhai nodweddion cadarnhaol yn unig. |

Tynnu 2 farc am iaith os nad yw ymgeisydd wedi ateb y ddau isgwestiwn.

**Wrth ddyfarnu marciau AA3 sylwer bod angen ystyried y ddau bwynt bwled cyntaf yn ogystal â'r ddau bwynt bwled olaf.**

**Asesiad Synoptig**

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu'n synoptig yng nghwestiwn 2 wrth iddynt ddatblygu ymhellach y sgiliau canlynol: gwerthfawrogi arddull a defnyddio iaith ysgrifenedig. **[45]**



© WJEC CBAC Cyf.